

ADRODDIAD PROSIECT GRANT

1.4.2019 – 31.3.2020



MANYLION Y PROSIECT:

Enw'r Sefydliad Arweiniol:

Mudiad Meithrin (MM)

Manylion Cyswllt y Sefydliad Arweiniol:

Dr Gwenllïan Lansdown Davies, Prif Weithredwr, Y Ganolfan Integredig, Boulevard de Saint Brieuc, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1PD

Enwau'r Partneriaid:

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCCKC)

Blynyddoedd Cynnar Cymru

Mudiad Meithrin (MM)

Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru)

Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar Cymru (PACEY Cymru)

Teitl y Prosiect:

CWLWM: Childcare in Wales Learning and Working Mutually

Cyfnod Adrodd:

1.4.2018 – 31.3.2020

Swm y Grant a Dderbyniwyd ar gyfer y cyfnod 1.4.2018 - 31.3.2020:

£1,634,410 - am 12 mis

£225,000 – cyllid ychwanegol

CYNNWYS:

1.	Cefndir	4
2.	Cyflwyniad	5
3.	Amcanion, Targedau a Chyflawniadau Cwlwm	6

1. CEFNDIR

Mae Cwlwm yn tynnu ynghyd y pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru i ddarparu gwasanaeth dwyieithog integredig sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd ar draws Cymru yn unol â dull 'system-gyfan' Llywodraeth Cymru.

Mae Cwlwm - prosiect a arweinir gan Mudiad Meithrin mewn partneriaeth â Clybiau Plant Cymru, NDNA Cymru, PACEY Cymru a Blynyddoedd Cynnar Cymru (Wales PPA yn flaenorol) - yn tynnu ynghyd y gallu, ar sail cyfoeth o brofiad, i fynd i'r afael â materion yn y sector Gofal Plant a Chwarae. Mae'r materion hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, cynaliadwyedd, datblygu'r gweithlu a bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant, yn enwedig yng nghyswllt gofal plant/chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg a darpariaeth mewn ardaloedd gwledig. Trwy gydweithio mae'r prosiect yn llwyddo i ganfod atebion arloesol i gyfleoedd chwarae a gofal plant hyblyg a gofal cofleidiol, er mwyn diwallu anghenion rhieni a theuluoedd ym mhob rhan o Gymru.

Mae Cwlwm yn cynnig dull amlasiantaeth integredig a dwyieithog o ddatblygu, cefnogi, cynghori a hyfforddi. Mae'r dull cydlynus a strategol hwn o weithredu yn sicrhau y ceir cysondeb o ran ansawdd ac arbedion effeithlonrwydd o ran darparu cymorth ac arweiniad ac mae'n cyflwyno atebion arloesol i ddiwallu anghenion lleol.

Mae Cwlwm:

- yn gweithio ar **lefel Cymru gyfan** i gynnig cymorth (gan gynnwys cymorth busnes), arweiniad a chyngor i leoliadau gofal plant a chwarae, gyda'r nod o gynnal darpariaeth.
- yn archwilio anghenion **datblygu'r gweithlu** gofal plant a chwarae ac yn gweithio ar y cyd i ddarparu cyfleoedd i ddiwallu anghenion y gweithlu hwnnw o ran hyfforddiant.
- yn **adnabod bylchau** yn y ddarpariaeth gofal plant a chwarae ar draws Cymru ac yn dod i hyd i atebion i'r bylchau hynny, gan gynnwys atebion arloesol yng nghyswllt y ddarpariaeth mewn **ardaloedd gwledig, tlogi a'r Gymraeg**.
- yn cydweithio i ddod o hyd i'r atebion gorau posibl ar gyfer **gofal plant hyblyg** mewn ardal benodol.
- yn adolygu heriau ac yn dod i hyd i **atebion** i'r heriau hynny drwy gydweithio.
- yn **cynrychioli'r** sector gofal plant ar bwyllgorau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n ymwneud â gofal plant a chwarae.
- yn sicrhau **ansawdd cyson ac arbedion effeithlonrwydd** yng nghyswllt cymorth, arweiniad ac atebion i heriau trwy gyfarfodydd partneriaeth reolaidd.
- yn cydweithio i **chwilio am gyllid** i wella'r cymorth a'r adnoddau sydd ar gael i'r sector gofal plant a chwarae.
- yn **cydweithio** ag awdurdodau lleol a gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd i sicrhau bod teuluoedd yng Nghymru yn elwa o'r ffaith bod modd iddynt gael gofal plant a chyfleoedd chwarae sy'n fforddiadwy, yn gynaliadwy ac o ansawdd da.

2. CYFLWYNIAD

Ar ôl sefydlu a datblygu perthynas waith cryf a llwyddiannus o fewn Cwllwm (2014-2019) i gyflawni amcanion ar gyfer plant a theuluoedd yng Nghymru, roedd y cynllun busnes newydd a ddatblygwyd ar gyfer Cwllwm (2019-2020) yn canolbwyntio ar y meysydd gwaith canlynol er mwyn cefnogi aelodau a sefydliadau nad ydynt yn aelodau o sefydliadau partneriaeth Cwllwm, tra'n 'ymdrin â'r sector gyfan' i gefnogi'r sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae yng Nghymru:

Amcan 1: Cefnogi a datblygu Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae o Ansawdd Da.

Cyflawnir hyn drwy weithio yn y meysydd allweddol hyn:

- Cefnogi Busnesau
- Safonau Gofynnol Cenedlaethol
- Cyfrannu at waith sy'n ymwneud ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Fframweithiau Sicrwydd Ansawdd
- Datblygiad a Hyfforddiant Gweithlu
- Lledaenu gwybodaeth i'r sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae.

Amcan 2: Cefnogi gweithrediad polisiau allweddol a mentrau o fewn y sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae.

Cyflawnir hyn drwy gyflawni gwaith yn y meysydd allweddol hyn:

- Y Cynnig Gofal Plant
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwlynys Addysg (Cymru)
- Cefnogi rhaglen 'Cymraeg Gwaith' y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol

Fel nodwyd yn flaenorol, defnyddiwyd 'dull sector-gyfan' er mwyn cyrraedd y gynulleidfa darged o weithwyr Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae, a oedd yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda:

- Llywodraeth Cymru
- Awdurdodau Lleol
- AWARE
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Busnes Cymru
- Darparwyr a rhanddeiliaid o fudiadau unigol

Fel tystiolaeth i gefnogi'r dyfarniad cyllid mewn perthynas â Chonsortiw m Gofal Plant Cwlwm, darparodd bartneriaid adroddiadau monitro naratif chwarterol i Lywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys tystiolaeth ansoddol a meintiol i gefnogi'r meysydd gwaith a gyflawnwyd gan Cwlwm. Roedd yr Adroddiad Monitro yn cynnwys pedair rhan:

1. Gwybodaeth fonitro ar gyflawniad gwaith **unigol** y 5 mudiad yn ymwneud â thargedau a gwaith Cwlwm yn unig.
2. Gwybodaeth fonitro ar waith strategol partneriaid Cwlwm **ar y cyd** e.e. gwaith yn ymwneud â pholisi Llywodraeth Cymru.
3. Gwybodaeth am waith dyddiol partneriaid Cwlwm.
4. Gwybodaeth ar waith a gyflawnir gan bartneriaid Cwlwm, sy'n cael ei gyllido gan ffynonellau eraill e.e. Grantiau Awdurdodau Lleol. Roedd yr wybodaeth yma yn dangos y gwaith ychwanegol a gyflawnwyd tu hwnt i gyllid Cwlwm gan esbonio'n glir i gyllidwyr eraill sut roedd eu cyfraniadau ariannol nhw yn cyfrannu at a chyfoethogi gwaith y sector.

3. AMCANION, TARGEDAU A CHYFLAWNIADAU CWLWM

At ddibenion yr adroddiad hwn, mae'r wybodaeth a ddarperir o ran amcanion a chyflawniadau Cwlwm yn canolbwyntio ar waith strategol **ar y cyd** y partneriaid.

Amcan 1: Cefnogi a datblygu Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae o Ansawdd Da.	
Targed	Cyflawniad
<p>Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynhyrchu dadansoddiad manwl o'r ystod o gymorth busnes sydd ar gael i'r sector gofal plant yng Nghymru. Mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru, defnyddio'r canlyniadau i adolygu a mapio sut mae partneriaid Cwlwm yn darparu cefnogaeth fusnes mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid.</p>	<p>Gweithiodd partneriaid Cwlwm gyda Carmel Barry, a apwyntiwyd gan Lywodraeth Cymru i gynnal ymarfer mapio cefnogaeth busnes. Roedd y gwaith yn ymwneud ag adnabod, categorioeddio a chrynhoi'r holl ffynonellau cefnogaeth, gyda'r bwriad o drosglwyddo'r holl wybodaeth i fecanwaith ar-lein, fel bod modd i ddarparwyr canfod at bwy ddylen nhw fynd am gefnogaeth busnes.</p> <p>Ar 17.10.19 trefnodd Cwlwm ddigwyddiad Cefnogaeth Busnes Gofal Plant gydag AWARE a Llywodraeth Cymru yn Llanfair ym Muallt a gadeiriwyd gan Gwenllian Lansdown Davies. Cafwyd gryn drafodaeth a chodwyd nifer o faterion ynghylch lefel y gefnogaeth busnes sydd angen ar y sector gofal plant a chwarae yng Nghymru. Ar ddiwedd y digwyddiad crynhowyd yr adborth gan bartneriaid Cwlwm ar ran Llywodraeth Cymru.</p> <p>Yn dilyn y digwyddiad uchod, mynychodd Cwlwm sy'n rhan o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cefnogaeth Busnes gyfarfod a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Wrth symud ymlaen, bydd Cwlwm yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhandeiliaid eraill i sicrhau datblygiad y weledigaeth cefnogaeth busnes, a byddant hefyd yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru ac yn cysylltu â</p>

	<p>darparwyr i gywain eu barn ar y profiad o gael mynediad at gefnogaeth busnes.</p>
<p>Datblygu trefniadau gweithio ac atgyfeirio cryf gyda Busnes Cymru ac Awdurdodau Lleol a hyrwyddo'r gefnogaeth fusnes sydd ar gael ar lefel leol. Sicrhau fod lleoliadau gofal plant yn derbyn y cyngor a'r gefnogaeth fwyaf priodol sy'n berthnasol i'w hanghenion.</p>	<p>Unwaith cyflwynir gwaith Carmel Barry mewn fformat hygyrch i randdeiliaid allanol bydd partneriaid Cwllwm yn sicrhau perthynas gwaith agos â Busnes Cymru, AWARE a'r ALI er mwyn hyrwyddo a datblygu gweledigaeth cefnogaeth busnes newydd Llywodraeth Cymru, fel bod y sector yn derbyn cyngor priodol a'r gefnogaeth sy'n berthnasol i'w hanghenion.</p> <p>Gafodd y ffurflenni cais a'r canllawiau ar gyfer y Grant Gofal Plant - Busnes Newydd a'r Grant Gofal Plant - Gweithwyr Newydd eu hadolygu gan bartneriaid Cwllwm. Rhennir gwybodaeth am y grantiau, gan gynnwys dolenni i safle we Busnes Cymru, gyda'r sector drwy newyddlenni a thros holl sianeli cyfrwng cymdeithasol Cwllwm.</p>
<p>Gweithredu'r mecanweithiau cymorth a adnabuwyd ar gyfer y sector yn dilyn adolygiad o ganfyddiadau Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) lle bynnag y bo modd.</p>	<p>Yn unol â chanfyddiadau'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant y 22 Awdurdod Lleol, ac er mwyn cefnogi'r sector, gweithiodd partneriaid Cwllwm i adnabod erthyglau penodol i'w cynnwys yn e-newyddlen Cwllwm, a dosbarthwyd trwy gydol y flwyddyn. Cliciwch yma i weld copïau o'r newyddlenni addysgiadol hyn.</p>
<p>Cynnig arweiniad a chefnogaeth i ddarparwyr wrth fodloni gofynion SGC a chefnogi LIC yn ei adolygiad o'r SGC.</p>	<p>Gweithiodd partneriaid Cwllwm gyda Llywodraeth Cymru gan ddarparu adborth ar bwyntiau penodol o fewn yr adolygiad drafft o'r SGC.</p> <p>Ar gyhoeddi'r adolygiad o'r SGC, rhannwyd dolen Llywodraeth Cymru gan bartneriaid Cwllwm trwy eu sianeli cyfathrebu cyfrwng cymdeithasol.</p> <p>Darparwyd adborth i Lywodraeth Cymru gan bartneriaid Cwllwm ar Gynllun Gweithredu Adolygiad y SGC, ac maent yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i frw ymlaen ag argymhellion o'r adolygiad i sicrhau bod y sector yn derbyn yr arweiniad a chefnogaeth berthnasol.</p>
<p>Cefnogi AGC gyda datblygiadau pellach i'r systemau ar-lein a gweithio gydag AGC i gefnogi cysondeb rheoleiddio, cofrestru ac arolygu.</p>	<p>Trwy gydol y flwyddyn, bu partneriaid Cwllwm yn cefnogi AGC ym meysydd gwaith amrywiol, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Codi materion trwy gyfarfodydd rheolaidd, a thrwy gwblhau'r cofnod materion AGC • Darparu adborth ar yr holiadur Person Addas a Phriodol • Ymateb i ymgynghoriad ar Cod Ymarfer AGC • Gweithio gydag AGC ar brosiect ar y cyd yn gysylltiedig â SASS i sicrhau bod gan y sector mynediad i'r wybodaeth, arweiniad a chefnogaeth oedd eu hangen i'w gwblhau; cyfuno'r adroddiad a'r gwerthusiadau a'u rhannu gydag AGC. (Derbyniodd partneriaid Cwllwm gyllid ar wahân gwerth cyfanswm o £ 7500, cyn TAW i gyflawni'r gwaith hwn).

	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu adborth ar weithrediad a phrofi'r systemau ar-lein newydd, gan fynychuamryw o weithdai rhyngweithiol • Darparu cefnogaeth SASS ar-lein drwy weithdai, sesiynau galw-mewn, webinarau, cefnogaeth dros ffôn/e-bost, sesiynau un wrth un, ac ati.
<p>Cefnogi'r adolygiad/gwerthusiad o weithrediad graddau AGC.</p>	<p>Bu Cwlwm yn cefnogi AGC ar weithrediad graddau trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hyrwyddo a rhannu gwybodaeth ar y graddau trwy ein holl gyfathrebiadau cyfrwng cymdeithasol, gan gynnwys erthygl o fewn e-newyddlen Cwlwm • Hwyluso a mynychu gweithdy arweiniad ar raddau AGC ym mis Medi <p>Yn ogystal, bu Cwlwm yn parhau i godi materion drwy gwblhau'r cofnod AGC, a thrwy fynychu cyfarfodydd. Pwysleisiodd Cwlwm i AGC y pwysigrwydd o sicrhau rhagor o gyfleoedd i dderbyn adborth ar weithredu graddfeydd a canllawiau cysylltiedig. Wrth symud ymlaen, bydd adborth gan y sector yn llywio'r arfer gofynnol.</p>
<p>Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r cymwysterau CCPLD newydd, gan gynnwys cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Gweithio gyda GCC i gefnogi'r rhaglen hyfforddiant cenedlaethol, i gefnogi'r cymwysterau CCPLD ac i annog Datblygiad Proffesiynol Parhaus.</p>	<p>Yn ystod y flwyddyn bu partneriaid Cwlwm yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithio'n agos gydag AGC trwy QSAG a'r Rhwydwaith Blynyddoedd Cynnar i sicrhau bod y cymwysterau'n addas at bwrpas, a'u bod yn mynd i'r afael a'r holl faterion a godwyd • Rhannu diweddariadau ar y cymwysterau newydd trwy eu safleoedd we a chyfrifon cyfrwng cymdeithasol • Cynrychioli'r sector yn ystod lansiad swyddogol y cymwysterau ym mis Medi • Parhau i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r cymwysterau, gan ateb sawl cais am wybodaeth gan bartneriaid allweddol, h.y. Awdurdodau Lleol; gan ddangos eu dealltwriaeth ac arbenigedd yn y maes.
<p>Cefnogi datblygiad y rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant, gan godi ymwybyddiaeth ohoni a'r nawdd sydd ar gael.</p>	<p>Trwy gydol y flwyddyn mynychodd partneriaid Cwlwm cyfarfodydd lle cafwyd diweddariadau gan Lywodraeth Cymru ar gynnydd y rhaglen hyfforddiant. Gafodd erthygl ar y rhaglen CaGLI (PfS) ei chynnwys yn rhan o e-newyddlen aeaf Cwlwm.</p>
<p>Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r cynllun prentisiaeth.</p>	<p>Yn ystod y flwyddyn bu partneriaid Cwlwm yn mynychu ac yn cyfrannu i drafodaethau ar y Fframweithiau Prentisiaeth arfaethedig, o fewn digwyddiadau Ymgysylltu â'r Cyflogwr a threfnwyd gan GCC a City&Guilds.</p> <p>Daliodd partneriaid Cwlwm i hyrwyddo'r cynllun prentisiaeth fel modd o gymhwyso yn y sector, yn ogystal â rhannu gwybodaeth ynghylch y Fframwaith Prentisiaeth CCPLD newydd, a'r opsiwn o ennill Dyfarniad Trosiannol i Waith Chwarae.</p>

<p>Gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar yr ymgyrch recriwtio a chadw, er mwyn codi proffil y sector i weithlu botensial ac annog datblygu sgiliau iaith Gymraeg ar draws y sector (mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol).</p>	<p>Gweithiodd partneriaid Cwlwm yn agos gyda GCC a'r ymgyrch <i>Gofalwn / WeCare</i>. Isod ceir enghreifftiau o'r cydweithio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu adborth ar gynnwys y rhannau o'r gwefan <i>Gofalwn / WeCare</i> yn ymwneud â 'rolau swydd' i sicrhau cywirdeb • Rhannu meddyliau ar sut all Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar cael ei fapio i waith <i>Gofalwn / WeCare</i> • Darparu Llysgennad Gwaith Chwarae ar gyfer y webinar <i>Gofalwn / WeCare</i> mewn cydweithrediad â Gyrfa Cymru • Cefnogi trafodaethau ar y Fframwaith Denu, Recriwtio a Chadw • Helpu adnabod lleoliadau i gael eu ffilmio • Rhannu gwybodaeth am yr ymgyrch drwy e-newyddlen Cwlwm a'r cyfryngau cymdeithasol • Mynychu digwyddiad dathlu <i>Gofalwn / WeCare</i> yng Nghaerdydd ym mis Mawrth. Roedd Pacey Cymru, a gynrychiolodd Cwlwm, yn un o'r siaradwyr allweddol yn y digwyddiad a chydnabuwyd y cyfraniad gwnaed gan bartneriaid Cwlwm i ddatblygu'r ymgyrch yn y sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae.
<p>Cefnogi GCC i godi ymwybyddiaeth o'r gwaith y bydd yn ei wneud i ddatblygu mecanwaith cynllunio gweithlu gwell wrth iddynt symud i ystyried cofrestru proffesiynol.</p>	<p>Fel man cychwyn ar gyfer y gwaith hwn, mynychodd partneriaid Cwlwm y grŵp cyfeirio rhanddeiliaid cyntaf ym mis Ionawr 2020 a chyfrannu at drafodaethau ar ffurf gweithdy ar gyfer datblygu gweithlu cofrestredig. Roedd hyn yn cynnwys codi materion oedd yn berthnasol i'w gwahanol feysydd arbenigedd e.e. gwarchodwyr plant, gweithwyr chwarae. Cytunodd Cwlwm i gefnogi GCC i godi ymwybyddiaeth ac maent yn aros am wybodaeth bellach.</p>
<p>Darparu adborth i GCC gan y sector ar sut, ac os yw darparwyr a lleoliadau yn cyflawni eu gofynion cynllunio ar gyfer y gweithlu yn ogystal â nodi anawsterau mae'r sector yn eu profi.</p>	<p>Mae Cwlwm yn mynychu cyfarfodydd chwarterol rhwydwaith datblygu gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant GCC a phenodwyd Maggie Kelly, Blynyddoedd Cynnar Cymru yn gadeirydd y grŵp yn ystod mis Chwefror.</p> <p>Yn ychwanegol, dyfeisiwyd Cofnod Materion Gweithlu gan bartneriaid Cwlwm, yn rhoi gwybodaeth ynghylch:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofynion cynllunio'r sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae • Anawsterau mae'r sector yn eu profi
<p>Gweithio gyda SkillsActive a phartneriaid eraill i gefnogi'r sector gwaith chwarae.</p>	<p>Ar ran partneriaid Cwlwm, gwnaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod ag Addysg Oedolion Cymru a Chwarae Cymru er mwyn datblygu cytundeb yn unol â Chanolfan Agored Cymru i safoni darpariaeth y Wobr Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Chwarae a

	<p>Rheoli Cynlluniau Chwarae'n Ystod Gwyliau'r Ysgol (MAHPS)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu taflen wybodaeth 'Pam gymhwyso mewn gwaith chwarae' i hyrwyddo'r brentisiaeth fel dull o gymhwyso yng ngwaith chwarae • Gweithio gyda Chwarae Cymru i greu 'Siart Llif Cymwysterau' i gynorthwyo pobl broffesiynol i adnabod y cymwysterau Gwaith Chwarae sydd eu hangen o fewn lleoliadau Gofal Plant a Gwaith Chwarae • Gweithio gyda Chwarae Cymru i ddarparu digwyddiadau hyfforddi i arolygwyr AGC i gefnogi cyflwyniad 'Pencampwyr Chwarae' • Cynnwys erthygl yn e-newyddlen Cwlwm ar y pwnc, 'Pam gymhwyso yng Ngwaith Chwarae' a rhannu'r erthygl drwy'r cyfryngau cymdeithasol • Mynychu amryw o gyfarfodydd i drafod ac egluro cymwysterau Gwaith Chwarae ar gyfer 2021. • Cefnogi Llywodraeth Cymru trwy ddanfôn llythyr atgoffa at yr holl leoliadau a chofrestrwyd gydag AGC i'w hatgoffa o ddyddiad cau cymwysterau 2021.
<p>Gweithio gyda'r Cyrff Dyfarnu i sicrhau bod y cymwysterau gwaith chwarae presennol yn cael eu diweddarau, a bod y Dyfarniad Trosiannol i Waith Chwarae (o'r Blynyddoedd Cynnar) yn cael ei ail-fframio yn erbyn y CCPLD.</p>	<p>Ar ran partneriaid Cwlwm mynychodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs cyfarfodydd i drafod a gweithio ar y materion dilynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymwysterau CCPLD Lefel 4 a 5 • Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae Uwch ar y Fframwaith Prentisiaeth • Datblygu CLG i ddarparwyr hyfforddiant Gwaith Chwarae cyflwyno L2APP neu P3, oedd yn gymwysterau cyfyngedig a daliwyd gan Agored • Adolygiad y Dyfarniad Trosiannol i Waith Chwarae (o'r Blynyddoedd Cynnar) <p>Mewn ychwanegiad i'r uchod, ac ar ran Cwlwm, gwnaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgymryd ag ymarfer mapio cynnwys y cymwysterau Gwaith Chwarae a Gofal Plant i'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Chwarae, gan ddangos y diffygion yn y cymwysterau presennol. • Yn ôl cais gan CACHE, cwblhau holiadur mewn ymateb i gefnogaeth i ddysgwyr yn ystod COVID-19. Arweiniodd hynny at ymwneud ymhellach â'r Sicrwydd Ansawdd Allanol i sicrhau bod cymwysterau yn parhau'n berthnasol ac yn hygyrch.
<p>Cefnogi'r adolygiad o dirweddau chwarae yng Nghymru.</p>	<p>Yn ystod y flwyddyn, mynychodd cynrychiolwyr Cwlwm cyfarfodydd Grŵp Llywio'r Adolygiad Chwarae. Trafodwyd / datblygwyd y canlynol:</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Nodau, amcanion ac amserlen yr adolygiad • Gweledigaeth chwarae drafft yn amlinellu'r materion, opsiynau a goblygiadau. Bu partneriaid Cwlwm yn adolygu ac yn cynnig sylwadau ar y drafft • Er mwyn cael plant i ymwneud â'r adolygiad cafwyd argymhelliad dylai'r archwiliad digonolrwydd chwarae aros yn ddogfen ar wahân i'r archwiliad digonolrwydd gofal plant, i osgoi gwanhau'r ddau. • Datblygwyd cynllun ar sut i gynnal arolwg ymhlith plant ar eu dealltwriaeth a phrofiadau o chwarae yng Nghymru, er mwyn symud yr adolygiad ymlaen. <p>Yn ychwanegol i'r uchod, gwnaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs cwrdd ag ystadegydd Llywodraeth Cymru i ddarparu data ychwanegol ar Glybiau Allan o'r Ysgol yng Nghymru.</p>
<p>Hyrwyddo'r Fframwaith Sefydlu GCC fel teclyn gwella ansawdd.</p>	<p>Gweithiodd partneriaid Cwlwm ag AGC I hyrwyddo a hybu defnydd y fframwaith sefydlu newydd, a gafodd ei rannu gyda'r sector drwy ein holl sianeli cyfathrebu. Gafodd erthygl ar y fframwaith ei chynnwys yn e-newyddlen aeaf Cwlwm.</p>
<p>Sicrhau fod y sector yn ymwybodol o'r holl ddatblygiadau i strategaethau cenedlaethol a gwybodaeth arall sy'n berthnasol i'r Sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae er enghraifft trwy ein e-newyddlen/cyfryngau cymdeithasol/gwefan.</p>	<p>Rhwng 1.4.2019 - 31.3.2020 gweithiodd partneriaid Cwlwm i greu e-newyddlenni Haf, Hydref a Gaeaf yn cynnwys erthyglau pynciol a pherthnasol. Gweithiodd partneriaid Cwlwm yn agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr erthyglau o fewn y newyddlenni yn cynnwys gwybodaeth gyfredol ynghylch strategaethau cenedlaethol, a gwybodaeth arall perthnasol i'r Sector Blynyddoedd Chwarae, Gofal Plant a Gwaith Chwarae. Rhannwyd yr e-newyddlenni'n eang o fewn y sector trwy'r cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan. Cliciwch yma i weld copïau o'r newyddlenni.</p>
<p>Codi ymwybyddiaeth / dealltwriaeth o bwysigrwydd rôl gofal plant a chwarae wrth wireddu gweledigaeth Cymraeg 2050 ar draws holl allbynnau 'Cwlwm' fel ein bod yn gweithio tuag at brif ffrydio darpariaeth Gymraeg a darpariaeth ddwyieithog ar draws y sector cyfan.</p>	<p>Gweithiodd partneriaid Cwlwm gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Sbectrwm i hyrwyddo'r prosiect Camau, trwy gysylltu â darpariaethau er mwyn marchnata a hyrwyddo'r cyrsiau dysgu Cymraeg oedd ar gael i weithlu'r sector. Erbyn diwedd mis Mawrth roedd 47 cwrs wedi eu cynnal, a 431 o ymarferwyr wedi dechrau dysgu Cymraeg. Hyrwyddwyd cwrs Ymwybyddiaeth Iaith (ar-lein) y GDCG gan bartneriaid Cwlwm, a oedd yn cynnwys adrannau ar fanteision ddwyieithrwydd, cyflwr yr iaith Gymraeg heddiw, twf a manteision addysg cyfrwng Cymraeg, a hanes yr iaith Gymraeg. Cofrestrodd 419 o ymarferwyr ar y cwrs, ac erbyn diwedd Mawrth roedd 257 ohonynt wedi ei gwblhau.</p> <p>Cafodd erthyglau ar y prosiect Camau eu cynnwys yn rheolaidd yn e-newyddlenni tymhorol Cwlwm.</p>

	<p>Er mwyn sicrhau parhad llwyddiannus y prosiect Camau wrth wireddu gweledigaeth Cymraeg 2050, darparodd partneriaid Cwlwm eu gweledigaeth i Lywodraeth Cymru ar sut i sicrhau gwell adnoddau unioni, a gwneud defnydd adeiladol o rôl y cydlynwyr iaith.</p> <p>Yn ogystal, parhaodd partneriaid Cwlwm i hyrwyddo'r Cynnig Gweithredol trwy amryw o sianeli, gan gynnwys staff cenedlaethol, cyfryngau cymdeithasol, safleoedd we'r sefydliadau, mynychu digwyddiadau, ac yn y blaen.</p>
<p>Amcan 2: Cefnogi gweithrediad polisiâu allweddol a mentrau o fewn y sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae.</p>	
<p>Hyrwyddo Cynnig Gofal Plant y Llywodraeth a grantiau cyfalaf y dyfodol i'r sector trwy ddigwyddiadau gofal plant wedi eu trefnu gan Llywodraeth Cymru ag Awdurdodau Lleol.</p>	<p>Chwaraeodd partneriaid Cwlwm rôl weithgar yn natblygiad a hyrwyddiad Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru, gan annog eu staff cenedlaethol ac aelodau i fynychu digwyddiadau #TalkChildCare.</p> <p>Cefnogodd partneriaid Cwlwm Llywodraeth Cymru trwy gywain barn y sector ynglŷn ag adolygiad y gyfradd, a darparu adborth ar yr ymatebion i'r cwestiynau allweddol.</p> <p>Mynychodd partneriaid Cwlwm cyfarfodydd yr Awdurdodau Lleol yn ymwneud â grantiau cyfalaf a bychain y Cynnig Gofal Plant, a chymerasant ran mewn paneli trafod i sicrhau bod y grantiau yn cael eu dyrannu'n deg. Cwblhawyd cofnod amlygu pryderon gan bartneriaid Cwlwm i adnabod y negeseuon allweddol o amgylch y grantiau cyfalaf, a phwyntiau pwysig yn ymwneud â gweithrediad y Cynnig Gofal Plant.</p>
<p>Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ganfyddiadau'r gwerthusiad y Cynnig Gofal Plant er mwyn adnabod ffurf i gefnogi darparwyr.</p>	<p>Mynychodd partneriaid Cwlwm cyfarfodydd rhanddeiliaid amrywiol yn ystod y flwyddyn, ble trafodwyd meysydd gwaith gan gynnwys cyfraddau tâl, ac eglurder canllawiau'r adolygiad y gyfradd. Mewn cyfarfod ym mis Ionawr darparwyd trosolwg o ganfyddiadau'r ymchwil, a oedd yn cynnwys heriau a chynlluniau'r dyfodol, gan Arad Research.</p>
<p>Darparu adborth gan y sector i Lywodraeth Cymru ar effaith y Cynnig Gofal Plant.</p>	<p>Yn ystod y flwyddyn daliodd partneriaid Cwlwm i godi pryderon yn ymwneud â'r Cynnig Gofal Plant gyda Llywodraeth Cymru, ar sail achosion unigol a hefyd trwy'r cyfarfodydd rhanddeiliaid y Cynnig Gofal Plant. Isod ceir enghreifftiau o'r materion a godwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut mae dadleoliad darparwyr gofal plant presennol gan ofalwyr sy'n cofrestru ar safleoedd ysgolion yn effeithio cynaliadwyedd gwasanaethau. • Sut mae diffyg cyfleoedd i nifer o ofalwyr plant darparu MCS a ariannir yn cael effaith ar

	<p>gynaliadwyedd gwasanaethau, cysondeb yn narpariaeth i'r plant, a dewis rhieni</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amserlen a materion hygyrchedd yn ymwneud â Grantiau Busnes Cymru; y taliadau ôl-dyledus a'r grant yn dod i ben ym Mawrth 2020. • Yr angen i rannu canfyddiadau'r gyfradd beilot yn Sir y Fflint. • Yr angen i rannu canfyddiadau'r Cwestiynau Cyffredin (adolygwyd gyda'r ALI) gyda phartneriaid Cwlwm cyn cyhoeddi. <p>Bu partneriaid Cwlwm hefyd yn cefnogi coladiad materion a thrafodaethau lleol drwy gwblhau'r cofnod #TalkChildcare a rhennir gyda Llywodraeth Cymru</p>
<p>Cefnogi datblygiad canllawiau, adnoddau, hyfforddiant a deunyddiau codi ymwybyddiaeth ar gyfer y sector Blynyddoedd Cynnar a'r gweithlu sy'n ymwneud â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Côt a rheoliadau ADY o dan y Ddeddf.</p>	<p>Mynychodd cynrychiolwyr Cwlwm cyfarfodydd amrywiol yn ystod y flwyddyn a darparwyd cyngor ac adborth ar gynnwys y REA ADHD ac Awtistiaeth a chanllawiau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â deunyddiau cefnogi'r Blynyddoedd Cynnar i gefnogi gweithrediad y Ddeddf ADY. Yn ogystal, daliodd cynrychiolwyr Cwlwm i drafod datblygiad adnodd cyffredinol gall rhieni a phlant ei dilyn i dderbyn cefnogaeth i blant ag ADY.</p> <p>Gweithiodd partneriaid Cwlwm yn agos ag Arweinwyr Trawsnewid i gefnogi gweithrediad ac i godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf.</p>
<p>Cefnogi'r arweinwyr Trawsnewid ADY rhanbarthol gyda datblygu a gweithredu'r elfen Blynyddoedd Cynnar yr ADY 'Cynlluniau Gweithredu Rhanbarthol'.</p>	<p>Derbyniodd Arweinwyr Trawsnewid ADY ym mhob ardal gwahoddiad gan bartneriaid Cwlwm i fynychu cyfarfod Cwlwm. Yn dilyn y cyfarfod, cytunodd partneriaid Cwlwm i gefnogi'r Arweinwyr Trawsnewid ym mhob ffordd posib i sicrhau bod rhieni yn derbyn gwybodaeth gywir ynghylch argaeledd gwasanaethau ADY.</p> <p>Mynychodd partneriaid Cwlwm cyfarfodydd Blynyddoedd Cynnar yr Arweinwyr Trawsnewid pryd bynnag y cynhaliwyd.</p>
<p>Gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i hwyluso cyrsiau 'Cymraeg Gwaith' ar draws y sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae (ariannir y gwaith gan £190,000 ychwanegol).</p>	<p>Bu partneriaid Cwlwm yn weithredol wrth gefnogi'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i hyrwyddo'r cyrsiau 'Camau' ar draws y sector. Mynychodd cynrychiolwyr Cwlwm cyfarfodydd gyda Sbectrwm i drafod materion megis cyfarthrebu, tystysgrifau, cyrsiau ac ati. Cefnogodd staff cefnogi Cymraeg eu hiaith darparwyr trwy gynhyrchu adnoddau ychwanegol a helpu i gynnal sgiliau iaith Gymraeg cyfreol er mwyn paratoi at hyfforddiant pellach, a hyrwyddo'r cwrs ymwybyddiaeth iaith Gymraeg ar-lein. Mae partneriaid Cwlwm wedi parhau i adeiladu perthnasau gyda darparwyr i greu'r sail ar gyfer darparu gofal ar ôl i'r cyrsiau cael eu cwblhau.</p>

Cyllid Ychwanegol: Cefnogi Cwlwm i ateb gofynion ychwanegol ar y consortiwm yn dilyn y llifogydd diweddar a phandemig Coronavirus.

Rhoi cyngor ac arweiniad i aelodau a'r sector ehangach mewn perthynas â'r llifogydd diweddar.

Yn dilyn y tywydd drwg a welwyd yng ngeaf 2019 / gwanwyn 2020 yn sgil Stormydd Ciara a Dennis, cynhaliwyd cyfarfodydd gan bartneriaid Cwlwm i drafod trefniadau wrth gefn i'r darpariaethau a orfodwyd i gau oherwydd llifogydd / difrod a achoswyd gan y storm. Darparodd Cwlwm adborth i Lywodraeth Cymru ar y llythyr arfaethedig i'r ALI ynghylch taliadau i blant a ariannir o dan y Cynllun.

Gweithiodd partneriaid Cwlwm ar y cyd i ddarparu canllawiau ar asesu risg, yswirio, argaeledd grantiau a diogelu, gan sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei rhannu gyda'r sector gofal plant a gwaith chwarae trwy'r cyfryngau cymdeithasol a'u safleoedd we. Gweithiodd partneriaid Cwlwm i sicrhau bod y wybodaeth a derbyniasant gan Busnes Cymru ynglŷn â'r Gronfa Cymorth Llifogydd yn cael ei gylchredeg drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'u safleoedd we.

Gweithiodd partneriaid Cwlwm i gefnogi darpariaethau a effeithiwyd gan y stormydd trwy rannu cyngor ar ddarparu gwasanaethau i rieni plant a effeithiwyd.

Gweithio gyda darpariaethau i ymateb i'r pandemig Coronavirus.

Trwy gydol y pandemig Coronafeirws gweithiodd partneriaid Cwlwm mewn modd effeithlon, effeithiol a rhagweithiol i sicrhau bod y sector gofal plant a gwaith chwarae wedi ei ddiweddarau gyda'r wybodaeth fwyaf cyfredol ynghylch y gefnogaeth ariannol, busnes a gweithredol oedd ar gael iddyn nhw.

- **Cyfathrebu gyda'r Consortiwm** - Cynhaliodd Cwlwm cyfarfodydd strategol lefel uchel trwy fideo cynadledda bob un dydd. Yn ogystal, bu cyfathrebu trwy e-brifio, negeseuon WhatsApp, e-bost a thrwy alwadau ffôn i drafod y sefyllfa newidiol.
- **Cyfathrebu gyda'r sector** - Yn gyfunol ac yn unigol, bu partneriaid Cwlwm yn gyfrifol am ddarparu cefnogaeth, arweiniad a chynghor i'r sector trwy sianeli cyfathrebu'r cyfryngau cymdeithasol, safleoedd we, trwy gyfeirio a chefnogi dros yr e-bost a'r ffôn. Trwy gydol y cyfnod digynsail, heriol a dryslyd hon, bu Cwlwm yn cynhyrchu ac yn rhannu gwybodaeth oedd yn glir, gryno ac yn dryloyw.
- **Cynhyrchu dogfennau** - Cynhyrchodd Cwlwm polisïau templed, enghreifftiau o arfer gorau, canllawiau arweiniol, Cwestiynau Cyffredin, llythyrau drafft a dogfen argaeledd grantiau, a fuodd oll o gymorth i'r sector gyda'r penderfyniadau gweithredol, busnes ac

	<p>ariannol gweithredol a wynebwyd yn ystod y cyfnod heriol hwn.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynrychiolaeth - I gynorthwyo Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol eraill megis AGC a'r ALI gyda'u hymatebion strategol i COVID-19, gweithiodd Cwllwm gyda hwy, gan ddarparu cyngor ac arweiniad, a hyn er mwyn sicrhau bod llais y sector gofal plant a gwaith chwarae yn cael gi glywed a'i gydnabod. • Darpariaethau gofal plant - Cynhaliwyd arolwg gan Cwllwm o'r sector gofal plant a gwaith chwarae er mwyn canfod data ar y nifer o ymarferwyr a oedd yn gymwys ac yn barod i weithio mewn lleoliadau yn darparu gofal i blant gweithwyr allweddol. • Gweithgarwch arall - Er mwyn sicrhau gweithrediad effeithlon ac effeithiol y sefydliadau Cwllwm, darparwyd yr offer TG, gwybodaeth a ch yngor angenrheidiol i alluogi staff i weithio o adref.
--	--

 <p>www.clybiauplantcymru.org</p>	 <p>https://www.meithrin.cymru/</p>	 <p>https://www.ndna.org.uk/</p>
 <p>https://www.pacey.org.uk/</p>	 <p>https://www.cwllwm.org.uk/</p>	 <p>https://earlyyears.wales/</p>

GRANT PROJECT REPORT

1.4.2019 – 31.3.2020



PROJECT DETAILS:

Name of Lead Organisation:

Mudiad Meithrin (MM)

Lead Organisation Contact Details:

Dr Gwenllian Lansdown Davies, Chief Executive, Y Ganolfan Integredig, Boulevard de Saint Brieuc, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1PD

Partners' Names:

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCKC)

Early Years Wales

Mudiad Meithrin (MM)

National Day Nurseries Association (NDNA Cymru)

Professional Association for Childcare and Early Years Cymru (PACEY Cymru)

Project Title:

CWLWM: Childcare in Wales Learning and Working Mutually

Reporting Period:

1.4.2019 – 31.3.2020

Grant Amount Received for the period 1.4.2019 – 31.3.2020

£1,634,410 - for 12 months

£225,000 – additional funding

CONTENTS:

1. Background	4
2. Introduction	5
3. Cwlwm's Objectives, Targets and Achievements	6

1. BACKGROUND

Cwlwm brings together the five leading childcare organisations in Wales to deliver a bilingual integrated service that ensures the best possible outcomes for children and families across Wales within the Welsh Government's 'whole-system' approach.

Cwlwm, led by Mudiad Meithrin in partnership with Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCKC), National Day Nurseries Association (NDNA Cymru), Professional Association for Childcare and Early Years (PACEY Cymru) and Early Years Wales brings together the ability, based on a wealth of experience, to tackle issues within the Childcare and Play sector. These include but are not restricted to: sustainability, workforce development and gaps in childcare provision, especially as far as Welsh-medium childcare/play and provision in rural areas are concerned. By working together, innovative solutions to flexible childcare and play opportunities, and wrap-around care to meet the needs of parents and families in all parts of Wales is achieved.

